



YSGOL GLAN CLWYD

**Cynllun Datblygu Maes
2012 – 2015**

Cynllun Cyswllt a Phontio

Maes

Trosglwyddo CA2 - CA3 : Cyswllt a Phontio Cynradd-Uwchradd

Yn gyfrifol

GM

Eraill a gyfrannodd i'r arfarnu a'r cynllunio

Aelodau Bwrdd Cyswllt Cynradd-Uwchradd, Teulu Ysgol Glan Clwyd

Dyddiad cyflwyno

Medi 2012

Arfarnu blaenoriaethau

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deilliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	wedi ei gyflawni hyd yn hyn	i'w wneud eto
1 Asesu a monitro cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion yn y pynciau craidd		<p>Gyda phwyslais ychwanegol ar Asesiad Athro,</p> <ul style="list-style-type: none"> parhau gyda gwaith y Gweithgorau Pynciau Craidd er mwyn safoni a chymedroli parhau i ddatblygu modd o gadarnhau, safoni a chysoni asesiad ar gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion yn y 4 pwnc craidd dethol a llunio tasgau a gweithgareddau cyffredin i'w gwneud o fl.6 i fl.7 penderfynu pa farciau / asesiadau / lefelau gellid eu trosglwyddo, a sut orau i wneud hyn 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Gweithgorau Cymraeg a Saesneg wedi eu blaenoriaethu yn ystod 2011-12 er mwyn cyflawni'r Cymedroli Cenedlaethol. Hyn wedi bod yn effeithiol (gweler adroddiadau Cymraeg a Saesneg y clwstwr).</i> <i>Cymraeg a Saesneg yw'r blaenoriaethau cenedlaethol 2011-12. Y teulu wedi cydweithio gyda Carys Roberts a Jon Rosser i sicrhau bod safoni a chymedroli teuluol.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sicrhau bod y Gweithgorau Pynciau Craidd yn cyfarfod yn rheolaidd. Blaenoriaethu Mathemateg a Gwyddoniaeth er mwyn cynhyrchu Proffiliau Dysgwyr CA2-3.</i> <i>Addasu trefniadau a gweithgareddau'r pynciau craidd - sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi'r gwaith.</i> <i>Defnyddio'r broses Safoni a Chymedroli i gynhyrchu Proffiliau Dysgwyr CA2/CA3 ar gyfer y Pynciau Craidd</i> <i>Sicrhau cysondeb wrth i ysgolion drosglwyddo gwybodaeth i YGC</i>

GM wedi trafod gyda swyddogion y sir. Nid oes son bod Cymedroli Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth. Er hynny, dylid sicrhau amser i drafod proffiliau dysgwyr CA2 a CA3 i hybu cyd-ddealltwriaeth.

Trafodaeth mewn Cyfarfod Clwstwr yn awgrymu dylid defnyddio gwaith a gynhyrchwyd eisoes ar gyfer Cymedroli Sirol. Mae angen casglu gwaith CA2 a gymedrolwyd yn sirol ynghyd a gwaith CA3 i'w drafod a gosod sylwebaeth arno. Y sylwebaeth yma fydd yn dangos ein cyd-ddealltwriaeth o Lefelau'r CC.

YSGOL GLAN CLWYD : Cynllun Datblygu Maes 2012 - 2015	MAES	Trosglwyddo CA2-CA3: Cyswllt Cynradd-Uwchradd	Yn gyfrifol	GM	Dolen gyswllt	MD
---	------	--	-------------	-----------	---------------	-----------

Arfarnu blaenoriaethau

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deilliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	wedi ei gyflawni hyd yn hyn	i'w wneud eto
2 Gweithgareddau pontio penodol o fewn y pynciau craidd		<p>Gan bod pwysau cynyddol ar Safoni a Chymedroli gwelwyd gwaith y Gweithgorau Pynciol yn datblygu i drafod hynny yn hytrach na datblygu gweithgareddau pontio.</p> <p>Cymuned Llythrennedd wedi ei sefydlu Medi 2012 – penderfynwyd y byddai pennu tasgau Llythrennedd fel gwaith pontio yn briodol.</p> <p>Dylid sefydlu trefn tebyg ar gyfer Rhifedd.</p>	<p><i>Blaenoriaethwyd sefydlu'r drefn Safoni a Chymedroli ar gyfer y Pynciau Craidd. Cyflwynwyd tasgau Llythrennedd Cymraeg a Saesneg – disgyblion yn ysgrifennu am eu hatgofion ayb.</i></p> <p><i>Cyflwynwyd gwersi yn y Pynciau Craidd fel rhan o'r ddau ddiwrnod croesawu a gynhaliwyd 2011-12. Bu'r diwrnodau hyn yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau bod disgyblion yn setlo.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <i>Penderfynu ar weithgareddau pontio Llythrennedd a Rhifedd</i> <i>Sicrhau bod y trefniadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Tachwedd er mwyn rhoi digon o amser i bawb eu cyfalwni</i>
3 Gweithgareddau trosglwyddo cyffredinol gyda bl.5 a bl.6 er mwyn hybu cysylltiadau a chryfhau dolenni bugeiliol a chymdeithasol		<p>Cryfhau'r trefniadau a pharhau â'r arferion da</p> <ul style="list-style-type: none"> cynnal y trefniadau a sicrhau cyllido a chefnogaeth bellach i barhau'r cynllun <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwyl Chwaraeon yr Hydref ➤ Gweithdai Technoleg Tymor yr Haf ➤ ymweld â'r Sioe Gerdd a pherfformiadau eraill trefnu Noson Agored effeithiol a chynhwysfawr <ul style="list-style-type: none"> ➤ casglu barn disgyblion a rhieni cyn ar ôl y noson 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Gweithgareddau chwaraeon, a Fformiwla 1 wedi eu cynnal.</i> <i>Noson Agored llwyddiannus iawn Hydref 11 – ymateb bositif iawn</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Parhau gyda'r trefniadau</i> <i>Sicrhau bod cyfle i gasglu barn disgyblion a rhieni yn fwy ffurfiol wedi'r Noson Agored trwy gyfrwng holiadur.</i> <i>Arfarnu'r broses drosglwyddo mewn holiadur ym Mlwyddyn 7. Rhannu'r wybodaeth o fewn y teulu.</i>

YSGOL GLAN CLWYD : Cynllun Datblygu Maes 2012 - 2015	MAES	Trosglwyddo CA2-CA3: Cyswllt Cynradd-Uwchradd	Yn gyfrifol	GM	Dolen gyswllt	MD
---	------	--	-------------	-----------	---------------	-----------

Arfarnu blaenoriaethau

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deiliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	wedi ei gyflawni hyd yn hyn	i'w wneud eto
4 “Wynebau cyfarwydd” - Cyfleon i gyfarfod â'r disgyblion cynradd trwy ymweliadau gan staff a disgyblion YGC.		<p>Cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd anffurfiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> UDA yn mynychu gwasanaethau / cyfarfodydd rhieni / rhannu gwybodaeth Pennaeth Blwyddyn a'r Swyddog Bugeiliol yn ymweld – trafod materion cynhaliaeth bugeiliol a chymdeithasol – megis Clwb Elwy cyfleon Cefnogaeth gan Gyfoedion – Criw Elwy; Swyddogion a Chyfeillion; Cyfeillion bl.7→8; 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Aelodau o'r UDA wedi mynychu Nosweithiau Agored</i> <i>Pennu bythefnos wedi'r Sulgwyn i Bennaeth Blwyddyn a'r Cyd-gordiwr Cefnogaeth Bugeiliol ymweld</i> <i>Cyd-gordiwr AAA yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn rheolaidd</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Parhau gyda'r drefn</i> <i>Cryfhau'r cysylltiad rhwng disgyblion BI6 a 7</i> <i>Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ymweld a'u hysgolion cynradd</i>
5 Datblygu medrau dysgu'r disgyblion.	✓	<p>Datblygu'r cyfleuon i rannu arferion da gan roi sylw i Llythrennedd a Rhifedd a'r agenda Cenedlaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod rhannu arferion da a thrafod strategaethau addysgu gan roi ffocws ar godi safonau. Sicrhau cyfleon i arsylwi gwersi cynradd/uwchradd 	<p><i>Sefydlwyd Cymuned Ddysgu Llythrennedd er mwyn rhannu arferion da a datblygu strategaethau o'r Cyfnod Sylfaen hyd ol 16</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <i>Sicrhau cyfleuon i arsylwi CA2 – CA3</i> <i>Ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd gan gydweithio fel teulu 2013 ymlaen.</i>
6 Cefnogi dysgwyr ail-gyfle y cynllun trochi, sef dysgwyr y Gymraeg a ddaw o ysgolion cyfrwng Saesneg y dalgyloch		<p>Parhau â'r Cynllun presennol ac adeiladu ar ei lwyddiant</p> <ul style="list-style-type: none"> rhaglen gryfach a mwy pendant o hysbysu'r ysgolion, y rhieni a'r disgyblion o'r cyfle llythyrau a marchnata cychwynnol addas trefniadau addysgu a dysgu sy'n sicrhau dilyniant a datblygu medrau ieithyddol a gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol cefnogaeth i athrawon i ddatblygu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu - deunyddiau papur ac e-ddeunyddiau cefnogaeth fugeiliol briodol 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Cynllun wedi gweithio'n llwyddiannus unwaith eto</i> <i>9 o ddisgyblion ail-gyfle wedi trosglwyddo ym Medi 2012.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Ymestyn y drefn o ran cyflwyno gwybodaeth a marchnata'r drefn trwy drafodaeth gydag Ann Jones (ALI)</i> <i>Parhau i sicrhau cefnogaeth y Cynulliad i'r drefn</i>

YSGOL GLAN CLWYD : Cynllun Datblygu Maes 2012 - 2015	MAES	Trosglwyddo CA2-CA3: Cyswllt Cynradd-Uwchradd	Yn gyfrifol	GM	Dolen gyswllt	MD
---	------	--	-------------	-----------	---------------	-----------

Arfarnu blaenoriaethau

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deiliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	wedi ei gyflawni hyd yn hyn	i'w wneud eto
7 Cofnodi a chyfnewid gwybodaeth / data sylfaenol am ddisgyblion yn fwy effeithiol		<p>Cryfhau trefniadau trosglwyddo data yn electronig</p> <ul style="list-style-type: none"> • mireinio trefniadau defnyddio'r CFT a SIMS.net • datblygu trefniadau ar sail Safle We Ysgol Glan Clwyd i gysylltu a safleoedd we ysgolion y teulu • edrych yn benodol ar ffurf y wybodaeth a geir trwy asesiadau pynciol a thargedau cyrhaeddiad 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Penderfynwyd trosglwyddo gwybodaeth trwy allforio gwybodaeth o SIMS. Anfonir gwybodaeth tebyg i'r hyn a gesglir gan y Sir a'r Cynulliad.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Sicrhau bod pob ysgol yn hyderus wrth drosglwyddo gwybodaeth</i> • <i>Mireinio'r Cofnod Cymdeithasol gan roi ffocws ar Lythrennedd a Rhifedd</i> • <i>Bwydo i'r system i dracio cynnydd</i> • <i>Mwy o hyfforddiant sut i ddadansoddi'r data</i> • <i>Rhannu gwybodaeth am drefn asesu YGC – dilyn patrwm a sefydlwyd gan yr ysgolion cynradd eisoes.</i>
8 Gwella trefniadau sicrhau a rhannu data am oed darllen disgyblion	✓	<p>Defnyddio'r Profion Darllen Cymru gyfan /NFER er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth Dyfal Donc, Catch Up,</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod y data ar gael i'r uwchradd • nodi pa ddisgyblion sydd heb ddata o'r profion 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Parhau gyda'r gwaith hyn gan ymateb i'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol Mai 2013.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Grwpiau Darllen Clwb Hwb a Dyfal Donc YGC i'w sefydlu ar sail y profion a wnaethpwyd yn yr ysgolion cynradd. Profion Bl.7 i'w cynnal ym mis Rhagfyr i fonito cynnydd y tymor cyntaf. Defnyddio Profion Darllen Cenedlaethol 2013.</i>
9 Defnyddio data CATS yn llawnach		<p>Ystyried goblygiadau'r data a gesglir gan yr ysgolion uwchradd ar drefniadau dilyniant data o CA2 ymlaen</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Defnyddio'r profion a dechrau dadansoddi – ARh wedi bod yn cefnogi rhai ysgolion gan drafod sut gellir dadansoddi'r wybodaeth.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Parhau i ddefnyddio CATS i greu proffil o'r dysgwyr</i> • <i>Sicrhau cyfle i'r ysgolion cynradd ddadansoddi'r wybodaeth CATS</i>

YSGOL GLAN CLWYD : Cynllun Datblygu Maes 2012 - 2015	MAES	Trosglwyddo CA2-CA3: Cyswllt Cynradd-Uwchradd	Yn gyfrifol	GM	Dolen gyswllt	MD
---	------	--	-------------	-----------	---------------	-----------

Arfarnu blaenoriaethau

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deilliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	wedi ei gyflawni hyd yn hyn	i'w wneud eto
10 Derbyn yn ffurfiol y Cynllun Trosglwyddo - ei arfarnu a'i fireinio		Llunio a ffurfioli amodau'r bartneriaeth rhwng ysgol Glan Clwyd a'i theulu o ysgolion cynradd – erbyn diwedd Medi 2011 <ul style="list-style-type: none"> cynnal cyfarfodydd strategol i lywio'r Cynllun Trosglwyddo trefniadau arfarnu'r Cynllun i'w gweithredu –	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd cyfarfod i drafod y Cynllun Medi 2011 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu'r drefn Sicrhau cyfle i drafod y Cynllun ymhellach er mwyn nodi costau yn y Cyfarfodydd Cyswllt / trwy ebost
11 Cymuned Broffesiynol y Gymraeg	✓	Sefydlu Cymuned Broffesiynol y Gymraeg er mwyn datblygu safonau ac hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg (Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Lllys, Ysgol Glan Clwyd)	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd strategol i gynllunio. Gydag arweiniad Carys Roberts datblygwyd adnoddau Cyfnod Sylfaen i hyrwyddo patrymau ieithyddol cywir. Datblygwyd adnoddau Darllen ar y Cyd CA3 fel dilyniant o waith CA2 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu gwaith y Gymuned gan roi ffocws ar waith CA2-CA3. Rhannu'r adnoddau ayb a ddatblygwyd.

YSGOL GLAN CLWYD : Cynllun Datblygu Maes 2012 - 2015	MAES	Trosglwyddo CA2-CA3: Cyswllt Cynradd-Uwchradd	Yn gyfrifol	GM	Dolen gyswllt	MD
---	------	--	-------------	-----------	---------------	-----------

Blaenoriaethau newydd 11 - 12

Agwedd	CDY	Y bwriad - a'r deiliant. Beth sydd i'w wneud – a sut	Cyllid ac adnoddau	yn gyfrifol	12-13	13-14	14-15
1 Cymuned Llythrennedd a Rhifedd	✓	Gweithio ar y cyd er mwyn datblygu Llythrennedd a Rhifedd gan ymateb i'r Fframwaith Cenedlaethol newydd. Sicrhau rhannu arferion da ac adnoddau hyfforddiant ar draws y teulu Cyswllt Cynradd	Clustnodi arian FfEY i gefnogi datblygu Cymuned Broffesiynol - sicrhau cyfleuon i staff ddatblygu adnoddau ac ymweld a dosbarthiadau ei gilydd.	GM / BLC Cymuned Broffesiynol Llythrennedd a Rhifedd	✓	✓	✓
Hybu lles emosiynol		Datblygu'r drefn bresennol o hybu lles emosiynol wrth i ddisgyblion drosglwyddo o CA2 – CA3 Parhau i gynnal cyfarfodydd Aml-Asiantaeth CA2 Mehefin Bl.6 Sicrhau ymweliadau gan y Swyddog Emosiynol i bob ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn – cynnal clinigau emosiynol Sicrhau bod disgyblion bregus yn cael ymweld a'r ysgol yn rheolaidd. Parhau i ddatblygu rhaglen SAP	YGC i gefnogi amser Swyddog Emosiynol a chymhorthyddion sy'n rhedeg y cynllun SAP,PASS	GM /AT / LJ	✓	✓	